# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## BPEC Rheoliadau / Is-ddeddfau Dwr



**Yn gryno**

Mae'r cwrs yn cynnwys Rheoliadau Cyflenwad Dwr (Ffitiadau Dwr) (Cymru a Lloegr) 1999 ac mae'n bodloni gofynion Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dwr (WRAS) y mae'r mwyafrif o gwmnïau dwr y DU yn aelodau ohono.

Mae BPEC yn ddarparwr arbenigol ym maes cymwysterau, cyrsiau hyfforddiant a deunyddiau dysgu a gydnabyddir gan ddiwydiant.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gyrchu cyrsiau rhan-amser, am ddim a dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw presennol (yn amodol ar gymhwysedd).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... unrhyw un 19+ oed, sy'n byw yng Nghymru, sydd mewn cyflogaeth. Nid yw'r uchafswm cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol ar gyfer y cwrs hwn.

... unrhyw un y mae angen dealltwriaeth o reoliadau/is-ddeddfau dwr arno. Yn enwedig, y rhai

sy'n dymuno bod yn blymwyr/contractwyr cymeradwy.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r llawlyfrau hyfforddiant yn cynnwys 12 modiwl, rhagair a rhestr termau. Mae'r cwrs cynhwysfawr iawn yn dechrau trwy hyfforddiant dwys yn y 12 modiwl. Ar ôl hyn, bydd angen cwblhau'r asesiadau. Nid oes unrhyw elfennau ymarferol – mae'r holl hyfforddiant yn seiliedig ar theori. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lwyddo i basio pob un o'r asesiadau i ennill tystysgrif WRAS/BPEC mewn Rheoliadau/Is-ddeddfau Dwr.

Cynhelir yr hyfforddiant a'r asesu yn y ganolfan sydd, fel arfer, yn para am un diwrnod. Fodd bynnag, bydd angen astudio annibynnol cyn mynychu'r sesiwn.

Bydd ennill y dystysgrif hon yn bodloni rhai o ofynion mynediad y meini prawf i ymuno â chynllun personau cymwys e.g. (APHC) lle, efallai y bydd angen cymhwyster cydnabyddedig mewn plymio.